Ymgynghoriad Swyddfa'r Cabinet: Rheoliadau Deddf Cymru 2017 (Darpariaethau Canlyniadau ac Arbed) 2018

Ymateb y Comisiwn Etholiadol

Chwefror 2018

Cyflwyniad

1.1 Ymgynghorwyd yn ffurfiol â'r Comisiwn Etholiadol am y rheoliadau drafft uchod y mae Swyddfa'r Cabinet yn cynnig eu gwneud o dan bwerau yn Neddf Cymru 2017.

1.2 Rydym yn deall y bydd rheoliadau arfaethedig yn gwneud darpariaeth diwygiadau canlyniadol ac arbed mewn perthynas â rhai darnau o ddeddfwriaeth etholiadol. Mae angen y darpariaethau hyn o ganlyniad i'r darpariaethau yn Neddf Cymru (adran 3 ac Atodlen 1 a 2, ac adrannau 5 i 8 y Ddeddf) sy'n datganoli pwerau mewn perthynas ag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru, ac yn benodol datganoliad etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.

1.3 Gofynnwyd i Grŵp Cynghori Deddfwriaeth Gymraeg ymateb ar wahân am agweddau Cymraeg y rheoliadau drafft arfaethedig.

1.4 Ceir ymateb y Comisiwn i bob un o'r meysydd y mae'r rheoliadau yn ymdrin â nhw isod.

Gwasanaeth Digidol

1.5 Nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud am y diwygiadau arfaethedig i reoliad 26 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001 (SI 2001/341) (ceisiadau i gofrestru) i wneud darpariaeth ganlyniadol mewn perthynas â chadw'r gwasanaeth digidol yn ôl.

Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCC)

1.6 Rydym yn deall y rhesymau dros newid y ffordd y mynegir etholfraint y PCC, o ganlyniad i ddatganoli'r etholfraint ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru. Rydym yn teimlo, fodd bynnag, bod y diffiniad arfaethedig o'r "gofrestr etholwyr" mewn etholiadau PCC yng Nghymru'n rhy hir a chymhleth

a dylid ystyried ei wneud yn haws ei ddeall ac osgoi dryswch gan weinyddwyr etholiadol.

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol

1.7 Rydym yn falch bod y rheoliadau arfaethedig drafft yn darparu eglurder y bydd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 sy'n nodi'r rheolau ar gyfer cynnal Etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn parhau mewn grym ar ôl i ddarpariaethau Deddf Cymru ddod i rym.

1.8 Nodwn fod hyn ac eithrio darpariaethau ar gyfer cyfuno'r pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol yng Nghymru, gan y bydd cyfuno etholiad llywodraeth leol arferol ac etholiad cyffredinol arferol o aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cael ei gadw'n ôl o dan newidiadau a wnaed gan Ddeddf Cymru 2017.